

Y FFORWM GWEITHWYR

27 Gorffennaf 2022

Yn bresennol: Mr M George (Cadeirydd)

Cynrychiolwyr Aelodau:

Dr M Havard, Mrs S Hoss, Cynghorydd R Owens, Cynghorydd V Thomas, Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd C Williams.

Cynrychiolwyr Staff:

Mrs S Hirst, Mr R James, Mr Tegryn Jones, Mr K Dickens a Ms E Rooney (Cynrychiolydd Unsain).

Cynrychiolwyr Undeb:

Ms Carmen Bezzina (Unsain).

[Ymunodd Mr J Lewis (Unsain) â'r cyfarfod cyn ystyried yr eitem ar Ailstrwythuro'r Sefydliad (gweler Cofnod 7).]

(Cyfarfod Rhithiol: 2.00pm – 3.30pm)

1. Ethol Cadeirydd

Nodwyd mai arfer yr Awdurdod oedd i Gadeirydd gael ei ethol o blith cynrychiolwyr yr Aelodau a'r staff am yn ail. Gan mai cynrychiolydd y staff oedd y Cadeirydd blaenorol, gofynnwyd am enwebiadau o blith Aelodau'r Awdurdod.

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd R Owens yn Gadeirydd am y flwyddyn sydd i ddod.

[Yna cymerodd y Cynghorydd R Owens y Gadair.]

2. Ethol Dirprwy Gadeirydd

PENDERFYNWYD ethol Mr R James yn Ddirprwy Gadeirydd am y flwyddyn sydd i ddod.

3. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Mr Tomos Jones a Dr RM Plummer. Fodd bynnag roedd Ms S Hirst a Dr M Havard wedi dirprwyo ar eu rhan.

4. Cyflwyniadau

Roedd pawb oedd yn bresennol wedi cyflwyno eu hunain.

5. Datgan Buddiannau



Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

6. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 10^{fed} o Fawrth 2021 i'w cadarnhau a'u dilysu.

CYTUNWYD i gadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 10^{fed} o Fawrth 2021.

7. Ailstrwythuro'r Sefydliad

Roedd y saff wedi gofyn i Aelodau'r Awdurdod am eu barn am yr Ailstrwythuro yn ddiweddar o'r Sefydliad.

Dechreuodd y Prif Weithredwr drwy amlinellu'r broses o ailstrwythuro oedd wedi digwydd hyd yn hyn, a'r canlyniad oedd bod y Pwyllgor Adnoddau Dynol (AD) wedi cytuno ar strwythur diwygiedig ar 25 Mai 2022. Roedd tri maes yn weddill: Pobl a Llywodraethu, Iechyd a Lles, a Gweinyddiaeth. Fodd bynnag, roedd cyfarfod eithriadol o'r Pwyllgor Adnoddau Dynol y bore hwnnw wedi cytuno ar ffordd ymlaen ar gyfer dau o'r tri maes, gan adael dim ond yr adolygiad o Weinyddiaeth i'w gwblhau. Roedd y broses o lenwi swyddi newydd wedi cychwyn, a'r gobaith oedd y gellir gweithredu'r strwythur newydd yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Byddai adolygiad o'r cyflogau a'r graddfeydd yn cael ei gynnal ar adeg briodol unwaith y byddai'r strwythur newydd yn ei le, a byddai arolwg o farn y staff ynghylch y broses ailstrwythuro hefyd yn cael ei gynnal maes o law. Ychwanegodd y Rheolwr AD bod y cylchlythyr staff yn ddiweddar wedi rhoi atebion i'r cwestiynau a ofynnwyd yn ystod y broses ymgynghori, ac yn nodi'r camau nesaf.

Er bod un Aelod wedi nodi ei bod yn ymddangos bod ymgysylltu a chyfathrebu â'r staff wedi'u cynnal yn gywir, roedd y Cynrychiolwyr o'r farn y dylid bod wedi ymgysylltu mwy â'r staff o'r cychwyn cyntaf fel y gallent fod wedi mynegi barn ar y math o strwythur oedd ei angen i gyflawni dibenion yr Awdurdod. Atebodd y Prif Weithredwr bod y negeseuon hynny wedi'u hystyried, a bod y rhan fwyaf o'r gwrth-gynigion a gyflwynwyd wedi'u derbyn, gan ddangos bod yr ymarferiad wedi bod yn ymgynghori go iawn.

Roedd yr adolygiad o'r cyflogau a'r graddfeydd fydd yn digwydd yn fwy o bryder i Aelodau'r Fforwm. Dywedodd y Rheolwr AD ei fod wedi trafod hyn gyda'r Cynrychiolwyr Staff ac y byddai'n ymgysylltu â'r staff i'w cynorthwyo i ddeall y broses. Y cam nesaf oedd trafod a chytuno ar gynllun y prosiect, ac yn arbennig cyfansoddiad y Panel Adolygu, gyda'r Tîm Arwain.

Gofynnodd y Cynrychiolwyr Staff a'r Undeb am gynrychiolaeth ddigonol



o'r staff a'u cynnwys yn ystod y broses o werthuso swyddi. Cadarnhaodd y Rheolwr AD bod cynllun y prosiect oedd i'w drafod gyda'r Tîm Arwain yn nodi'r angen am werthusiad allanol a mewnol oedd yn cynnwys cyfranogiad llawn gan drawstoriad o staff ac Undebau.

Dyweddodd sawl Aelod bod angen i'r Undeb gael ei chynnwys yn gynnar yn y broses, a gofynnodd Aelod arall bod y staff fyddai'n ymwneud â'r broses yn cael digon o amser i gyfranogi'n llawn, gan mai ei phrofiad hi oedd bod y broses yn un feichus iawn, yn emosiynol ac yn yr amser a gymerir. Gofynnodd y Cynrychiolwyr am i aelodau allanol y Panel gael gwybod mai awdurdod bach yw'r Awdurdod Parc Cenedlaethol, nid fel Cyngor Sir, a bod rolau'r staff yn unigryw. Sicrhaodd y Rheolwr AD y staff mai cam cyntaf y broses oedd sicrhau bod y disgrifiadau swydd yn gywir, yn gyfredol ac wedi'u cytuno gan yr unigolion. Byddai hyfforddiant yn cael ei drefnu i'r staff ac i'r rheolwyr ynglŷn â'r wybodaeth sydd ei hangen i sicrhau bod y broses yn broses werthuso gadarn.

Dyweddodd cynrychiolydd o Unsain mai'r pwynt allweddol oedd sicrhau bod y cymhathu cyflogau yn gywir – sef sut oedd graddfeydd cyflog yr Awdurdod yn cysylltu â'r golofn gyflog genedlaethol. Atebodd y Prif Weithredwr bod yr Awdurdod wedi creu cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi i ymdrin â'r mater hwn, oedd yn golygu y gallai'r cymhathu fod yn wirioneddol i'r hyn y barnai'r Awdurdod y dylai fod.

Nodwyd.

8. Unrhyw Eitemau eraill o Fusnes

a) Y Cyflog Byw

Dyweddodd Unsain nad oedd yr Awdurdod ar hyn o bryd mewn gwirionedd wedi'i achredu yn gyflogwr Cyflog Byw, ond ei fod yn talu tâl ychwanegol o werth cyfatebol. Gofynnodd i ystyriaeth gael ei rhoi i achredu yn y dyfodol. Atebodd y Prif Weithredwr bod y mater hwn wedi'i drafod yn ddiweddar gyda'r Pwyllgor Adnoddau Dynol, oedd wedi cytuno ar y pwynt mewn egwyddor, ond eu bod yn bryderus ynghylch effaith yr adolygiad cyflogau a graddfeydd sydd yn yr arfaeth, a gofynnwyd i'r Awdurdod ailystyried y mater unwaith y byddai'r adolygiad wedi'i wneud. Ystyriaethau eraill oedd y rhagwelir na fydd unrhyw gynnydd yn setliad cyllideb yr Awdurdod, a'r tebygolrwydd y bydd codiad cyflog sylweddol yn genedlaethol.

Roedd cydnabyddiaeth bod effaith y cyflog byw ar y raddfa gyflog yn heriol i gyflogwyr ar lefel genedlaethol oherwydd cwestiynau ynghylch pa mor fforddiadwy yw'r cyflog byw, er ei fod wedi'i wneud am y rheswm cywir.

NODWYD.

